


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

Lawrlwytho Data 30 Medi 2020

Diolch yn fawr i'r holl Bractisiau a fewngofnododd a gwirio eu data cyn lawrlwytho'r data ar 30 Medi.

Yn gyffredinol yn y Chwarter diwethaf (Ch3) dim ond 6 Practis ledled Cymru a fethodd â mewngofnodi yn ystod y Chwarter a llwyddodd 4 Bwrdd Iechyd i ymgysylltu 100% o'u Meddygfeydd.

Mae ymgysylltu a chywirdeb mewnbynnu data yn hanfodol er mwyn sicrhau bod eich holl staff yn dod o dan y Cynllun GMPI ac fel bod yr Offeryn Adrodd yn darparu'r data mwyaf cywir posibl.



Canolbwyntio ar: Indemnïad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)

Gyda thymor y fflw ar ein gwarthaf a llawer o Bractisiau yn dilyn trefniadau gweithio anarferol i sicrhau bod brechiadau'n cael eu rhoi mewn amgylchedd Covid-ddiogel, rydym wedi derbyn rhai ymholiadau ynghylch egluro yswiriant GMPI ar gyfer gwahanol amgylchiadau. Ar gyfer unrhyw ymholiad GMPI penodol, gweler y ddogfen Cwestiynau Cyffredin ddefnyddiol hon a grëwyd gan Dîm Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, sydd ar gael [yma](http://yma.gmpi@wales.nhs.uk) neu e-bostiwrch GMPi@wales.nhs.uk a fydd yn hapus i helpu.

Diweddariad Locwm

Ddim yn siŵr ble i archebu Locwm?

Ydy eich Locwm ar Gofrestr Locwm Cymru Gyfan ac felly'n derbyn yswiriant GMPI?

Ydych chi'n gwybod pa feddygon teulu a hoffai weithio yn eich Practis? Mae gan Locum Hub Wales yr atebion i'r cwestiynau hyn a mwy!

PEIDIWCH AG ANGHOFIO cofrestru ar Locum Hub Wales – yr ateb ar gyfer holl anghenion Locwm eich Practis.

Absenoldeb

Efallai bod rhai Practisiau yn cael trafferth gydag absenoldeb staff yn ystod y Pandemig cyfredol. Sicrhewch fod yr holl absenoldebau staff tymor hir (mwy na phythefnos i ffwrdd o'r gwaith) wedi'u cofnodi yn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu, er mwyn sicrhau cywirdeb os codir pryder trwy GMPI ac i alluogi cynllunwyr y gweithlu i ddeall yn well y pwysau posibl ar eich Practis.



Wyddoch chi fod gan y rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd Staff Banc Gweinyddol ar gael a allai helpu eich Practis? Cysylltwch â'ch Bwrdd Iechyd lleol am ragor o wybodaeth am gael mynediad at yr help hwn.

Syniadau ac Awgr

Adroddiadau Staff



Os oes angen adroddiad arnoch yn dangos Data Staff yn eich Practis, mae un ar gael ar flaenau'ch bysedd.

- Cliciwrch ar y tab Modiwl Adrodd Data ar yr ochr chwith
- Cliciwrch ar Adroddiadau
- Adroddiadau Excel
- Math o Sefydliad = Practis
- Dewiswch sefydliad = Teipiwch y cod W neu enw'r Practis
- Dewiswch Math o Adroddiad = Adroddiad Staff Practis
- Cliciwrch ar Creu Adroddiad

Bydd yr Adroddiad yn cael ei greu mewn llai na munud ac yna gallwch agor adroddiad Excel, ei ddiwygio a'i arbed. Gellir dileu neu ail-olygu data sensitif nad oes eu hangen yn ôl y gofyn.

www.locumhubwales.co.uk

AWGRYM: Mae Locum Hub Wales yn gweithio orau gyda Google Chrome



Partneriaeth Cydwasaethau
Gwasanaethau Cyflogaeth

Shared Services Partnership
Employment Services